

2020 Rhif (Cy.)

2020 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A4042
(Cylchfan Mamheilad i Ffordd
Croes-y-Pant, Penperllenni,
Torfaen) (Gwaharddiadau Traffig a
Therfynau Cyflymder Dros Dro)
2020

The A4042 Trunk Road (Mamhilad
Roundabout to Croes-Y-Pant Lane,
Penperlleni, Torfaen) (Temporary
Traffic Prohibitions and Speed
Limits) Order
2020

Gwnaed 2 Hydref 2020

Made 2 October 2020

Yn dod i rym 12 Hydref 2020

Coming into force 12 October 2020

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A4042, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A4042 Trunk Road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited and/or restricted because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Cylchfan Mamheilad i Ffordd Croes-y-Pant, Penperllenni, Torfaen) (Gwaharddiadau Traffig a Therfynau Cyflymder Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 12 Hydref 2020.

1. The title of this Order is the A4042 Trunk Road (Mamhilad Roundabout to Croes-Y-Pant Lane, Penperlleni, Torfaen) (Temporary Traffic Prohibitions and Speed Limits) Order 2020 and it comes into force on 12 October 2020.

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006(c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

(a) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2) neu mewn cysylltiad â’r gwaith sy’n arwain at y Gorchymyn hwn;

(b) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu’r llu awyr ac sy’n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy’n aelod o’r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy’n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 00:01 o’r gloch ar 12 Hydref 2020 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A4042 Casnewydd i Amwythig;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw’r unedau hynny o’r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Gwaharddiadau a Chyfyngiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, droi i’r dde neu droi i’r chwith, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i’r Gorchymyn hwn.

2. In this Order:

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means:

(a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984 Act(2) or in connection with the works giving rise to this Order;

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A4042 Newport to Shrewsbury Trunk Road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 00:01 hours on 12 October 2020 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

Prohibitions and Restrictions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the lengths of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

4. No person may, during the works period, make a right hand turn or a left hand turn, other than an exempted vehicle, on the lengths of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order.

(2) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddau Cyfundrefnol Difrifol a’r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddau a’r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(2) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 50, 40, 30 neu 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn yn ystod yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad 10 milltir yr awr y cyfeirir ato yn erthygl 5 yn weithredol.

Atal Dros Dro

7. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 5 yn weithredol.

Cymhwyso

8. (1) Nid yw'r gwaharddiadau a'r cyfyngiad yn erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

9. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

2 Hydref 2020



Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

5. No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle to proceed at a speed exceeding 50, 40, 30 or 10 miles per hour on the length of the trunk road specified in Schedule 3 to this Order.

6. No person may, during the works period, use or permit the use of a vehicle, other than an exempted vehicle, in such a way that it overtakes any other vehicle on the length of the trunk road specified in Schedule 3 to this Order during such times as the 10 miles per hour restriction referred to in article 5 is in operation.

Suspension

7. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the lengths of the trunk road specified in Schedule 3 to this Order are suspended during such times as the restriction specified in article 5 is in operation.

Application

8. (1) The prohibitions and restriction in articles 3, 4, 5 and 6 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limit imposed by this Order applies to an exempted vehicle.

Duration of this Order

9. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated

2 October 2020



Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

ATODLEN 1 Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Y darn o gerbyttffordd tua'r gogledd cefnffordd yr

SCHEDULE 1 Temporary Prohibition of Vehicles

The length of the northbound carriageway of the A4042 trunk road that extends from its junction with

A4042 sy'n ymestyn o'i chyffordd â phrif gerbyttfordd gylchredol Cylchfan Mamheilad hyd at bwynt 165 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt cyffordd yr A4042 â'r A472 Berthin Road.

Y darn o gerbyttfordd tua'r de cefnffordd yr A4042 sy'n ymestyn o'i chyffordd â llinell cwrw deheuol ffordd fynediad Secret Garden hyd at ei chyffordd â'r A472 Berthin Road.

ATODLEN 2

Gwahardd Troi i'r Dde a Throi i'r Chwith dros dro

Dim troi i'r chwith o lôn troi i'r chwith yr A4042 tua'r de wrth ddynesu at Gyffordd Little Mill.

Dim troi i'r dde o lôn troi i'r dde yr A4042 tua'r gogledd wrth ddynesu at Gyffordd Little Mill.

ATODLEN 3

Terfynau cyflymder 50, 40, 30 a 10 mya dros dro

Y darn o gefnffordd yr A4042 o bwynt 15 o fetrau i'r de o linell ganol ei chyffordd â'r ffordd ymyl o'r enw Ffordd Croes-y-Pant hyd at ei chyffordd â phrif gerbyttfordd gylchredol Cylchfan Mamheilad.

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A4042 (CYLCHFAN MAMHEILAD I FFORDD CROES- Y-PANT, PENPERLLENNI, TORFAEN) (GWAHARDDIADAU TRAFFIG A THERFYNAU CYFLYMDER DROS DRO) 2020

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn arfaethedig i wneud gwaith ar gefnffordd yr A4042, neu gerllaw iddi, rhwng Cylchfan Mamheilad a Ffordd Croes-y-Pant, Penperllenni, Torfaen.

Effaith y Gorchymyn fydd gwneud y canlynol dros dro:

i) gwahardd pob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith) rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A4042 a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Pennir y llwybrau eraill yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn.

ii) gwahardd pob cerbyd (ac eithrio cerbydau esempt) rhag troi i'r dde neu droi i'r chwith ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn. Pennir y llwybrau eraill yn Atodlen 4 i'r Hysbysiad hwn.

iii) gosod terfynau cyflymder 50, 40, 30 a 10 mya, fel y bo angen, ar y darn o gefnffordd yr A4042 a

the main circulatory carriageway of Mamhilad Roundabout to a point 165m north of the centrepoint of the A4042 junction with the A472 Berthin Road.

The length of the southbound carriageway of the A4042 trunk road that extends from its junction with the southern kerb line of the Secret Garden access to its junction with the A472 Berthin Road.

SCHEDULE 2

Temporary Prohibition of Right and Left Turns

No left turn from the A4042 southbound left turn lane approaching Little Mill Junction.

No right turn from the A4042 northbound right turn lane approaching Little Mill Junction

SCHEDULE 3

Temporary 50, 40, 30 and 10 mph speed limits

The length of the A4042 trunk road from a point 15 metres south of the centreline of its junction with the side road known as Croes-Y-Pant Lane to its junction with the main circulatory carriageway of Mamhilad Roundabout.

THE A4042 TRUNK ROAD (MAMHILAD ROUNDAABOUT TO CROES-Y-PANT LANE, PENPERLLENNI, TORFAEN) (TEMPORARY TRAFFIC PROHIBITIONS AND SPEED LIMITS) ORDER 2020

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A4042 trunk road between Mamhilad Roundabout and Croes-Y-Pant Lane, Penperllenni, Torfaen.

The effect of the Order will be to temporarily:

i) prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services and for the works) from proceeding on the lengths of the A4042 trunk road specified in Schedule 1 to this Notice. The alternative routes are specified in Schedule 2 to this Notice.

ii) prohibit all vehicles (other than exempted vehicles) from making a right turn or left turn on the lengths of the trunk road specified in Schedule 3 to this Notice. The alternative routes are specified in Schedule 4 to this Notice.

iii) impose 50, 40, 30 and 10 mph speed limits, as required, on the length of the A4042 trunk road specified in Schedule 5 to this Notice. The 10 mph speed limit will operate during convoy working on the

bennir yn Atodlen 5 i'r Hysbysiad hwn. Bydd y terfyn cyflymder 10 mya yn weithredol yn ystod gwaith confoi ar y darn o'r gefnffordd, a ni chaniateir goddiweddyd.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn weithredol yn ysbeidiol dros nos rhwng 00:01 o'r gloch hyd 06:00 o'r gloch rhwng 12 Hydref 2020 a 12 Rhagfyr 2020 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol. Bydd y cyfyngiadau yn weithredol am gyfnod para'r Gorchymyn.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.



J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

ATODLEN 1

Gwahardd Cerbydau Dros Dro

- i. Y darn o gerbyttffordd tua'r gogledd cefnffordd yr A4042 sy'n ymestyn o'i chyffordd â phrif gerbyttffordd gylchredol Cylchfan Mamheilad hyd at bwynt 165 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt cyffordd yr A4042 â'r A472 Berthin Road.
- ii. Y darn o gerbyttffordd tua'r de cefnffordd yr A4042 sy'n ymestyn o'i chyffordd â llinell cwrw deheuol ffordd fynediad Secret Garden hyd at ei chyffordd â'r A472 Berthin Road.

ATODLEN 2

Y Llwybrau Eraill yn Ystod Cyfnodau pan fo Cerbydau wedi eu Gwahardd Dros Dro


length of the trunk road and no overtaking will be in operation.

The prohibitions, which will be signed accordingly, are expected to operate intermittently overnight between 00:01 hours and 06:00 hours from 12 October 2020 until 12 December 2020 or until the temporary traffic signs are permanently removed. The restrictions will operate for the duration of the Order.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.



J SADDLER
Transport
Welsh Government

SCHEDULE 1

Temporary Prohibition of Vehicles

- i. The length of the northbound carriageway of the A4042 trunk road that extends from its junction with the main circulatory carriageway of Mamhilad Roundabout to a point 165 metres north of the centrepoint of the A4042 junction with the A472 Berthin Road.
- ii. The length of the southbound carriageway of the A4042 trunk road that extends from its junction with the southern kerb line of the Secret Garden access to its junction with the A472 Berthin Road.

SCHEDULE 2

Alternative Routes for Temporary Prohibition of Vehicles

- i. The alternative route for non-motorway northbound

i. Y llwybr arall nad yw'n lwybr traffordd ar gyfer traffig tua'r gogledd o Gylchfan Mamheilad yw ar hyd yr A4042 tua'r de i Gylchfan Grove Park, parhau ar hyd yr A4042 i Gyffordd Old Town Dock yr A48, dilyn Ffordd Ddosbarthu Ddeheuol Casnewydd tua'r dwyrain i Gyffordd 24 (Cyfnewidfa Coldra), yr A449 tua'r gogledd i Gyfnewidfa Rhaglan a'r A40 tua'r gorllewin i Gyfnewidfa Hardwick. I'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r de o Ffordd Croes-y-Pant, Penperllenni. Bydd mynediad yn parhau ar hyd yr A4042 i'r eiddo presennol sydd tua 360 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o Gylchfan Mamheilad.

ii. Y llwybr arall ar gyfer traffig traffordd tua'r gogledd o Gylchfan Grove Park yw ar hyd yr M4 wrth Gyffordd 25a (Grove Park) mynd tua'r dwyrain i Gyffordd 24 (Cyfnewidfa Coldra), a gadael y draffordd yno i ddilyn gweddill y llwybr arall a ddisgrifir uchod. I'r gwrthwyneb ar gyfer traffig traffordd tua'r de.

ATODLEN 3

Gwahardd Troi i'r Dde a Throi i'r Chwith Dros Dro

i. Dim troi i'r chwith o lôn troi i'r chwith yr A4042 tua'r de wrth ddynesu at Gyffordd Little Mill.

ii. Dim troi i'r dde o lôn troi i'r dde yr A4042 tua'r gogledd wrth ddynesu at Gyffordd Little Mill.

ATODLEN 4

Y Llwybrau Eraill pan fo troi i'r Dde a Throi i'r Chwith wedi ei Wahardd Dros Dro

i. Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n dymuno troi i'r chwith i'r A472 Berthin Road yn Little Mill fel y crybwyllir yn Atodlen 3 fydd mynd ar yr A4042 tua'r de i Gylchfan Mamheilad a dychwelyd ar yr A4042 tua'r gogledd i ddefnyddio'r lôn troi i'r dde i'r A472 Berthin Road wrth gyffordd Little Mill.

ii. Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n dymuno troi i'r dde i'r A472 Berthin Road yn Little Mill fel y crybwyllir yn Atodlen 3 fydd mynd i'r gogledd ar hyd yr A4042 i Gylchfan Hardwick yn y Fenni, a dychwelyd ar yr A4042 tua'r de i droi i'r chwith i'r A472 Berthin Road wrth gyffordd Little Mill.

ATODLEN 5

Terfynau cyflymder 50, 40, 30 a 10 mya dros dro

Y darn o gefnffordd yr A4042 o bwynt 15 o fetrau i'r de o linell ganol ei chyffordd â'r ffordd ymyl o'r enw

traffic from Mamhilad Roundabout is via the southbound A4042 to Grove Park Roundabout, continue along the A4042 to the A48 Old Town Dock Junction, proceed eastbound on the Newport Southern Distributor Road to Junction 24 (Coldra Interchange), the northbound A449 to Raglan Interchange and westbound on the A40 to Hardwick Interchange. Vice versa for southbound traffic from Croes-Y-Pant Lane, Penperlleni. Access will be maintained along the A4042 to the existing property located approximately 360m north-east of Mamhilad Roundabout.

ii. The alternative route for motorway northbound traffic from Grove Park Roundabout is via the M4 at Junction 25a (Grove Park) and proceed eastbound to Junction 24 (Coldra Interchange), there exiting to follow the remainder of the alternative route described above. Vice versa for southbound motorway traffic.

SCHEDULE 3

Temporary Prohibition of Right and Left Turns

i. No left turn from the A4042 southbound left turn lane approaching Little Mill Junction.

ii. No right turn from the A4042 northbound right turn lane approaching Little Mill Junction

SCHEDULE 4

Alternative Routes for Temporary Prohibition of Right and Left Turns

i. The alternative route for traffic wishing to turn left onto the A472 Berthin Road into Little Mill as mentioned in Schedule 3 will be to proceed on the A4042 southbound to Mamhilad Roundabout and return on the A4042 northbound to use the right turn lane onto the A472 Berthin Road at Little Mill junction.

ii. The alternative route for traffic wishing to turn right onto the A472 Berthin Road into Little Mill as mentioned in Schedule 3 will be to proceed north along the A4042 to Hardwick Roundabout at Abergavenny and return on the A4042 southbound to turn left onto the A472 Berthin Road at Little Mill junction.

SCHEDULE 5

Temporary 50, 40, 30 and 10 mph speed limits

The length of the A4042 trunk road from a point 15 metres south of the centreline of its junction with the side road known as Croes-Y-Pant Lane to its junction with the main circulatory carriageway of Mamhilad

Ffordd Croes-y-Pant hyd at ei chyffordd â phrif Roundabout.
gerbyttfordd gylchredol Cylchfan Mamheilad.